

# Cip ar Fyrbrydau Melys

Mae Byrbrydau Melys yn werth £251m yng Nghymru a £4.3bn yng ngweddill Prydain. Mae defnyddwyr Cymru'n prynu mwy yn y categori na gweddill Prydain, gyda threiddiad o 87%. Ond gyda melysion yn cyfrif am bron hanner y categori, mae pryniant blynyddol o £85 yn y categori yng Nghymru lawer yn is na'r £101 yng ngweddill Prydain. Byddai tyfu gwerthiant cacennau a bisgedi yng Nghymru, ar gefn twf cryf coffi, ac annog dewis cynnyrch premiwm yn ffyrdd o dyfu'r farchnad.

Mae'r farchnad byrbrydau melys yn werth £251m, ac yn cael ei dominyddu yng Nghymru gan felysion, sy'n werth 47.7% o'r farchnad (£120m). Tra bo twf mewn amllder prynu yng Nghymru, ac mewn pecynnau i bob ymweliad, mae gostyngiad ym mhreis yr uned a chyfran o'r boblogaeth sy'n prynu wedi gweld gwariant yn gostwng 5.3% y flwyddyn. Mae'r gostyngiad yn fwy na gostyngiad Prydain o 1.7% y flwyddyn, sydd wedi'i liniaru trwy gynnydd sylweddol ym mhreis yr uned.

Mae cyfran melysion yn werth bron i 10% yn fwy yng Nghymru na gweddill Prydain. Yn sgil hynny, mae masnach byrbrydau melys Cymru yn canolbwyntio ar Adwerthwyr Lluosog a'r Stryd Fawr, sy'n dominyddu'r farchnad ac yn cyfrif am 60% o werthiant byrbrydau melys o'i gymharu â 46.5% yng ngweddill Prydain.

Mae'r farchnad felysion wedi gweld gostyngiad blynyddol o 3%, wedi'i yrru gan ostyngiad ym mhreis yr uned a gostyngiad mewn treiddiad wrth i siopwyr adael y farchnad. Mae cacennau, pastai melys a bisgedi wedi gweld twf blynyddol o 1.3% wrth i amllder uwch wrthwneud gostyngiad mewn treiddiad a phecynnau yr ymweliad.

Mae melysion, a mwyafrif y byrbrydau melys, fel rheol yn denu siopwyr iau a benywaidd yn fwy na'r farchnad bwyd i fynd drwyddi draw. Yr unig eithriad yw cacennau, pastai melys a bisgedi, sydd â demograffeg debyg i broffil siopwyr bwyd i fynd a siopau coffi drwyddi draw. Yng Nghymru, mae merched yn gyrru'r gostyngiad mewn byrbrydau melys, gyda dynion yn rhoi hwb i'r sector trwy brynu mwy o gacennau, pastai melys a bisgedi. Mae llai o wariant gan bobl iau, ond mae siopwyr hŷn wedi ychwanegu £9.7m at y sector.

Mae cyswllt cryf â'r cynnydd mewn yfed coffi, gyda thraean o wariant ar gacennau, pastai melys a bisgedi yn cynnwys coffi. Mae achlysuron bore yn dod

yn bwysicach yn y farchnad bwyd i fynd drwyddi draw, ac mae hyn i'w weld hefyd yn y farchnad bwyd i fynd. Y llynedd, roedd twf cryf mewn cacennau, pastai melys a bisgedi a brynwyd rhwng brechwast a'r fasnach fore, gyda phwyslais arbennig ar gwcis, cacennau a thoesion melys a croissants. Wrth i bobl fwyta cinio iachach, maent yn prynu eitemau mwy moethus yn y bore.

Yn ddi-ddorol, tra bo cyfran llawer uwch o ddefnyddwyr Cymru'n prynu ffrwythau na gweddill Prydain, mae pris yr uned yn £0.36, sef hanner cyfartaledd gweddill Prydain. Drwyddi draw, mae ffrwythau'n cyfrif am 6% o wariant byrbrydau melys Cymru, o'i gymharu ag 11% ym Mhrydain. Mae hyn yn awgrymu fod defnyddwyr Cymru'n prynu ffrwythau cyfan (e.e. afal) yn hytrach na ffrwythau wedi'u paratoi a'u pecynnu.

	Byrbrydau Melys	Cacennau, Pastai Melys a Bisgedi	Melysion	Ffrwythau
<b>Treiddiad</b>	87.5 102	75.4 102	66.1 102	38.3 204
<b>Amllder</b>	76.1 101	28.5 93	50.8 103	28.6 109
<b>Gwariant y Flwyddyn</b>	85.0 84	38.9 77	53.5 104	12.2 46
<b>Pris yr Uned</b>	0.77 84	1.12 93	0.66 88	0.36 54

Byddai dewis cynnyrch drytach trwy'r farchnad byrbrydau melys yn ychwanegu tua £22.5m at y sector. Mae'r bwloch ym mhreis yr uned ar draws melysion, cacennau a ffrwythau rhwng Cymru a gweddill Prydain yn awgrymu fod cyfle i wneud hynny. Mae sicrhau fod cynnyrch premiwm yn cwrdd ag anghenion y defnyddwyr yn allweddol i lwyddiant, ac mae adnabod gyrrwyr lluosog fel iechyd, cyfleuster a blas yn arbennig o bwysig i sicrhau cynnydd mewn gwerth.